

# Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

## Ymchwiliadau annibynnol i honiadau yn erbyn athrawon ac aelodau o staff

### Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn:

[rebecca@athrawon.com](mailto:rebecca@athrawon.com) / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **24 Chwefror 2014** i:

Cangen Llywodraethu Ysgolion  
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [SMED2@cymru.gsi.gov.uk](mailto:SMED2@cymru.gsi.gov.uk)

Ticiwch y blwch sy'n eich disgrifio chi orau fel ymatebydd.

<input type="checkbox"/>	Awdurdod lleol*
<input checked="" type="checkbox"/>	Undeb

<input type="checkbox"/>	Pennaeth
<input type="checkbox"/>	Ysgol

<input type="checkbox"/>	Llywodraethwr ysgol
<input type="checkbox"/>	Arall

### Nodwch:

\*os ydych wedi rhoi tic wrth ymyl ALI, nodwch eich rôl, h.y. LADO, AD, swyddog cymorth llywodraethu, ac ati.

**Cwestiwn 1** – A ydych chi'n cytuno bod y rheoliadau yn nodi mewn ffordd eglur bod y gofyniad i benodi ymchwilwyr annibynnol yn berthnasol i honiadau yn erbyn aelod o staff a gyflogir dan gontract cyflogaeth i weithio yn yr ysgol? (Rheoliad 7A(1))

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

Nid ydym yn sicr a yw'r cyfeiriad yn y rheoliadau at 'person a gyflogir dan gontract cyflogaeth' yn glir ac yn dal dŵr yn ôl gofynion y gyfraith, ond yn sicr rydym o'r farn na fydd ei ystyr yn glir o ran dehongliad ar lawr gwlad.

Mae UCAC o'r farn y gallai'r term 'dan gontract cyflogaeth' fod yn amwys. Y perygl yw bod ysgolion (cyrff llywodraethu a phenaethiaid), ac o bosib Awdurdodau Lleol, yn camdehongli, neu'n cael trafferth deall a yw'r term yn cynnwys:

- athrawon sydd wedi'u cyflogi drwy asiantaeth (h.y. contract rhwng yr ysgol a'r asiantaeth)
- athrawon sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol i wneud gwaith cyflenwi dros dro (e.e. contract cyflogaeth uniongyrchol rhwng yr ysgol a'r athro, ac nid trwy'r Awdurdod Lleol)

Rydym yn bendant o'r farn y bydd angen i ganllawiau sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau ddiffinio'r term – gan ddatgan pa gategoriâu o staff sy'n cael eu cwmpasu, a pha gategoriâu sydd y tu hwnt iddo. Mae'n bosib bod angen ystyried mewnosod paragraff i'r un perwyl o dan adran 'Dehongli' y rheoliadau eu hunain.

Ein dealltwriaeth ni yw na fyddai'r rheoliadau newydd yn berthnasol i'r ddau gategori uchod. Ond naill ffordd neu'r llall, mae angen eglurder er mwyn osgoi dryswch a chamweithredu.

Ar hyn o bryd, mae'r canllawiau drafft sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r ddogfen ymgynghorol yn dweud bod y canllawiau'n berthnasol "i bob achos lle y mae honiad [yn erbyn] athro neu aelod staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) mewn ysgol neu goleg addysg bellach sy'n darparu addysg i blant dan 18 mlwydd oed." Mae geiriad hwnnw'n gamarweiniol mewn perthynas â chynigion y ddogfen ymgynghorol yn yr ystyr eu bod yn cyfeirio at wirfoddolwyr, ac at 'athro neu aelod staff' heb gyfeirio at eu statws cyflogaeth neu gytundebol. Awgrymwn fod angen ailedrych ar y geiriad er mwyn sicrhau eglurder.

Os nad yw staff sydd wedi'u cyflogi drwy asiantaeth, neu ar gontract uniongyrchol gyda'r ysgol, na gwirfoddolwyr, yn cael eu cwmpasu gan y rheoliadau newydd, mi fydd yn bwysig bod canllawiau clir ynghylch sut i ymateb i honiadau o gam-drin plant mewn perthynas â nhw. Yn benodol:

- pwy sydd â chyfrifoldeb
- beth yw'r union brosesau y dylid eu dilyn

Mi fyddai aros yn dawel ar y materion hyn yn beryglus i ddysgwyr ac i staff a gwirfoddolwyr fel ei gilydd.

**Cwestiwn 2** – A ydych chi'n cytuno y dylai'r rheoliadau nodi mewn ffordd eglur bod y gofyniad i benodi ymchwilydd annibynnol yn ymwneud â honiadau o gam-drin, boed yn gorfforol, yn rhywiol neu'n emosiynol, yn erbyn athro neu aelod o staff a gyflogir dan gontract cyflogaeth? (Rheoliad 7A(2))

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 3** – A ydych chi'n cytuno y dylai'r rheoliadau nodi mewn ffordd eglur bod y gofyniad i benodi ymchwilydd annibynnol ond yn ymwneud â honiadau bod athro neu aelod o staff wedi cam-drin disgybl y mae wedi'i gofrestru yn yr ysgol? (Rheoliad 7A(2))

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol**

**Cytunwn yn gryf â'r cynnig hwn.**

**Mae gennym brofiad o ddelio â honiadau maleisus yn erbyn staff ysgol, o fewn cyfundrefnau'r ysgol, sy'n ymwneud â'u bywydau personol. Byddai'r cynnig hwn yn eu diogelu rhag sefyllfaoedd amhriodol o'r fath, ac yn golygu bod unrhyw amheuan dilys yn cael eu hymchwilio dan gyfundrefnau priodol gan yr awdurdodau priodol.**

**Cwestiwn 4** – Pan gyfeirir honiad o gam-drin i'r pennaeth, a ydych chi'n cytuno y dylai hysbysu cadeirydd y llywodraethwyr, oni bai ei fod yn fodlon y tu hwnt i amheuaeth resymol nad yw'r honiad yn wir? (Rheoliad 7A(3))

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol**

**Cytunwn yn llwyr y dylai'r pennaeth hysbysu cadeirydd y llywodraethwyr. Gall y gofyniad hwn helpu i osgoi sefyllfa ble mae (canfyddiad bod) pennaeth heb fod yn ddigon diduedd mewn perthynas ag aelod o staff, neu wedi methu cymryd honiad o ddifrif.**

**Credwn ei bod hi'n bwysig pwysleisio (yn fwy nag sy'n cael ei wneud yn y canllawiau drafft ar hyn o bryd) na ddylid rhannu'r wybodaeth ymhellach ar y pwynt hwn.**

**Yn y cyd-destun hwn, mae'n anffodus fod y rheoliadau drafft yn crybwyll 'hysbysu'r corff llywodraethu am bob honiad'; byddai'n well gennym ni weld y**

rheoliadau'n cyfeirio at gadeirydd y corff llywodraethu'n benodol, er mwyn osgoi bod gwybodaeth am yr honiad yn lledaenu ymhellach.

Mewn perthynas â'r cymal 'oni bai ei fod wedi'i fodloni y tu hwnt i amheuaeth resymol nad yw'r honiad yn wir', tueddwn i feddwl na ddylid gwneud eithriad o'r fath, ac y dylid hysbysu cadeirydd y corff llywodraethu o *unrhyw* honiad o gam-drin. Y rheswm dros ddadlau hynny yw'r un a nodwyd uchod, sef i sicrhau i'r graddau eithaf posib nad oes modd cyhuddo'r pennaeth o ffafriaeth neu ddihidrwydd. Mae'r gofyniad i hysbysu yn golygu bod y cyfrifoldeb wedi'i rannu o'r cychwyn cyntaf, ac yn help i sicrhau nad yw'r penderfyniad bod yr honiad yn anwir 'y tu hwnt i amheuaeth resymol' yn un goddrychol neu wamal - neu fod unrhyw ganfyddiad o hynny. Ni fyddai rhannu'r wybodaeth gyda'r cadeirydd o reidrwydd yn esgor ar broses ymchwilio neu unrhyw gyfundrefnau beichus eraill, ond mi fyddai'r penderfyniad ei bod hi tu hwnt i amheuaeth resymol nad yw'r honiad yn wir yn benderfyniad ar y cyd yn hytrach nag yn benderfyniad gan unigolyn.

**Cwestiwn 5** – A ydych chi'n cytuno na ddylai'r corff llywodraethu gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r honiad nes bod y drafodaeth/cyfarfod strategaeth wedi'i gynnal?

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol**

Unwaith eto, cytunwn yn gryf iawn â'r cynnig.

Nid oes angen i unrhyw aelod o'r corff llywodraethu, ac eithrio'r cadeirydd, dderbyn gwybodaeth am yr honiad oni bai bod y mater yn cyrraedd y panel disgyblu.

O ran peidio 'llygru' (*taint*) aelodau'r corff llywodraethu a allai fod yn aelodau o'r panel disgyblu, mae'n eithriadol o bwysig nad ydynt yn cael gwybodaeth ymlaen llaw, ac mae hyn yn atgyfnerthu'r ddadl o blaid peidio cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r honiad hyd nes y bydd y drafodaeth neu'r cyfarfod strategaeth wedi'i gynnal.

**Cwestiwn 6** – A ydych chi'n cytuno na ddylai'r corff llywodraethu gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r honiad nes bod yr awdurdodau statudol wedi gorffen y gwaith o ystyried yr achos ac nes bod unrhyw achos troseddol wedi dod i ben a'r mater wedi'i gyfeirio'n ôl at y corff llywodraethu? (Rheoliad 7A(5)(c))

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol**

Cytunwn yn gryf unwaith eto – am y rhesymau a nodwyd yng nghwestiwn 5 uchod ynglŷn â pheidio lledaenu gwybodaeth ymhellach nag sy'n angenrheidiol, a gochel rhag llygru aelodau'r corff llywodraethu petai'n dod yn achos disgyblu yn nes ymlaen. Cytunwn yn ogystal y byddai unrhyw gamau

gan y corff llywodraethu'n gynamserol ac yn amhriodol ar y pwynt hwn yn y broses.

**Cwestiwn 7** – A ydych chi'n cytuno na ddylai'r corff llywodraethu benderfynu ar y camau nesaf a ph'un a oes angen ymchwiliad annibynnol nes ei fod wedi ymgynghori â Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol dros Amddiffyn Plant a'r pennaeth ac y dylid cadw cofnod o'r drafodaeth hon? (Rheoliadau 7A(5)(c) a 7A(6))

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

#### Sylwadau ategol

Cytunwn yn llwyr. Unwaith eto, byddai'n well gennym weld rheoliad 7A(6) yn cyfeirio at gadeirydd y corff llywodraethu yn hytrach nag i'r 'corff llywodraethu' yn ei gyfarwydd – a hynny am yr un rhesymau ag y nodwyd gennym yng nghwestiynau 4 a 5 uchod.

**Cwestiwn 8** – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion ynghylch pryd nad oes angen i gorff llywodraethu gynnal ymchwiliad annibynnol? (Rheoliad 7A(7))

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

#### Sylwadau ategol

Cytunwn â'r cynigion. Rydym wedi gweld llawer gormod o ymchwiliadau annibynnol i gyhuddiadau ble mae tystiolaeth glir eu bod yn ddi-sail, ar yr egwyddor "rhag ofn" gan benaethiaid ac adrannau adnoddau dynol gwan.

Fodd bynnag, mewn perthynas â 7A(7)(c), sef 'pan fydd y person y gwnaed yr honiad yn ei erbyn wedi cyfaddef ei fod wedi gwneud yr hyn yr honnir iddo ei wneud', hoffem bwysleisio pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng:

- cyfaddefiad i weithred yr honnir iddo ei wneud, ac sydd wedi'i ddyfarnu'n fater o gam-drin
- cyfaddefiad i weithred yr honnir iddo ei wneud, ond nad sy'n dod o fewn y diffiniad o gam-drin, er enghraifft, pan fydd yr aelod o staff wedi defnyddio grym rhesymol o dan amgylchiadau penodol

**Cwestiwn 9** – A ydych chi'n cytuno bod yn rhaid rhoi adroddiad o'r ymchwiliad i'r corff llywodraethu fel sail i'r broses ddisgyblu, ac y dylid rhoi copi i'r pennaeth? (Rheoliadau 7A(8) a (9))

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	-----------------------	-------------------------------------

				nac yn anghytuno	
--	--	--	--	------------------	--

### Sylwadau ategol

**Mewn perthynas â 7A(8), credwn mai i gadeirydd y corff llywodraethu y dylid rhoi copi o'r adroddiad yn y lle cyntaf, ac wedyn i aelodau'r panel disgyblu. Os aiff y broses disgyblu i apêl, bydd angen i aelodau'r panel apêl dderbyn copi o'r adroddiad ar y pwynt hwnnw.**

**Gallai darparu'r adroddiad i'r corff llywodraethu cyfan yn rhy gynnar yn y broses greu anawsterau yn nes ymlaen yn y broses disgyblu o ran "llygru" aelodau'r amrywiol baneli.**

**Cytunwn yn llwyr â chymal 7A(9), sef y dylid darparu copi o'r adroddiad i'r pennaeth.**

**Cwestiwn 10** – A ydych chi'n cytuno y dylai'r corff llywodraethu, ar ôl gweld adroddiad yr ymchwiliad annibynnol, benderfynu a ddylid diswyddo'r aelod staff? (Rheoliad 7A(10))

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

**Cytunwn â hyn, ond rhaid pwysleisio mewn unrhyw ganllaw, bod yn rhaid mynd drwy broses disgyblu, gan ddilyn polisi disgyblu'r ysgol, er mwyn diswyddo'r aelod staff.**

**Cwestiwn 11** – A ydych chi'n cytuno â'r bobl rydym am eu hychwanegu at y rhestr o bobl na fyddem yn eu hystyried yn annibynnol at ddibenion yr ymchwiliad annibynnol? (Rheoliadau 7A(11))

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

**Cwestiwn 12** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Nodwch yma:

Gallwn dystio o'n profiadau uniongyrchol mewn ysgolion bod y drefniadaeth hyd yma wedi ei gweithredu mewn modd hollol wahanol i'r bwriad gwreiddiol. Mae gennym aelodau sydd wedi bod drwy straen cwbl annerbyniol o wynebu ymchwiliadau estynedig i honiadau di-sail.

Yn ogystal, mae'r data am y ganran isel o ymchwiliadau sydd wedi arwain at ddiswyddiadau'n ategu pa mor amhriodol fu'r defnydd o'r broses mewn cynifer o achosion.

O'r herwydd, mae UCAC yn croesawu'r ymgais hwn i ddod â gwell eglurder, tegwch a chysondeb i'r broses o ymchwilio'n annibynnol i gyhuddiadau yn erbyn staff ysgol sy'n ymwneud â cham-drin plant. Cytunwn yn llwyr mai diwygio'r rheoliadau staffio yw'r dull mwyaf effeithiol o wneud hynny, ar y cyd â chyhoeddi canllawiau statudol clir, diamwys ar y mater.

Yn ychwanegol at yr atebion rydym wedi'u rhoi i'r cwestiynau penodol uchod, mae gennym rai pryderon y mae angen eu mynegi ynglŷn â sut caiff y cynigion hyn eu gweithredu'n ymarferol.

1. Mae'r ymchwilwyr annibynnol yn brofiadol, yn drwyadl, ac – wrth reswm – yn annibynnol. Yn sgil y gorddefnydd ohonynt, mae'r awdurdodau lleol wedi colli capasiti, profiad ac arbenigedd o ran delio â sefyllfaoedd o'r fath, sy'n golygu nad ydynt yn ddigon cyfarwydd â'r gweithdrefnau nac ag arfer dda. Gall hynny yn ei dro arwain at oedi ac at ddiffyg gofal i'r aelodau o staff dan sylw.

Mae'r diffygion o fewn yr awdurdodau lleol y cyfeiriwn atynt uchod, yn berthnasol i'r adrannau Adnoddau Dynol yn benodol. Yr hyn fyddai'n hwyluso'r trefniadau newydd fyddai sefydlu llwybrau cliriach a chyflymach rhwng yr ysgolion a'r Swyddogion Dynodedig o fewn yr awdurdod. Mae'n debygol (ac yn angenrheidiol) y byddai'r Swyddog Dynodedig yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau ac yn gallu ymateb mewn ffordd broffesiynol ac amserol i unrhyw ymholiad neu gyfeiriad gan ysgol.

2. Mae gennym bryderon ychwanegol ynghylch rôl y Gymraeg yn y gweithdrefnau hyn. Yn gyntaf, mae prinder ymchwilwyr Cymraeg, sy'n golygu bod prosesau'n digwydd drwy gyfrwng y Saesneg yn erbyn dymuniadau'r rhanddeiliaid, neu fod oedi tra bod trefniadau cyfieithu'n cael eu rhoi yn eu lle. Yn ail, mae gofyniad i gyfieithu'r holl ddogfennaeth i'r Saesneg er mwyn eu gwirio'n ganolog. Mae hyn wedi arwain at oedi pellach mewn rhai achosion a gwyddom am achosion sydd wedi para am yn agos at flwyddyn yn sgil hyn. Petai'r gweithdrefnau a'r personél priodol yn eu lle, mi fyddai modd osgoi'r oedi diangen hwn.
3. Efallai bod angen bod ychydig yn gliriach yn y canllawiau ynghylch y gweithdrefnau mewn achos ble mae'r honiad yn erbyn y pennaeth; pwy wedyn sy'n camu i rôl y pennaeth yn y prosesau a amlinellir? Cofier nad oes dirprwy bennaeth ym mhob ysgol yng Nghymru.
4. Bydd angen i unrhyw ganllawiau sicrhau eu bod yn rhoi cyfarwyddyd clir i benaethiaid, llywodraethwyr ac awdurdodau lleol ynghylch y camau priodol i'w cymryd o ran ymchwilio mewn achosion nad ydynt yn dod o fewn meini prawf yr ymgynghoriad hwn. Mae sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer yr achosion hyn, na fyddant yn cael eu harchwilio'n allanol, yn hollbwysig.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

